



ADRODDIAD CYNNYDD CYNMLLUN IAITH GYMRAEG

Ebrill 2020 - Mawrth 2021

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Datganiad o Ymrwymiad	4
Trosolwg o'r Cynllun	5
Darparu Gwasanaethau – y Rhyngwyneb Cyhoeddus	6
Llunio Polisiâu – Corfforaethol a Rheoleiddiol	9
Gweithrediadau Mewnol	11
Rhagolwg	14

Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru yn sefydliad dwyieithog sy'n cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn 2011, cyflwynwyd Mesur y Gymraeg (Cymru), gan wneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru a chyflwyno cyfres o ofynion cyfreithiol rwymol a elwir yn Safonau'r Gymraeg. Cyflwynodd y Mesur yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nid oes unrhyw ofynion statudol wedi'u cymhwyso eto i Cymwysterau Cymru, er ein bod yn disgwyl cael ein cynnwys yn Safonau'r Gymraeg mewn amser.

Mae Cymwysterau Cymru yn croesawu ei gyfrifoldebau fel corff sector cyhoeddus. Er nad oes disgwyl eto i ddiwallu Safonau'r Gymraeg, rydym wedi cadarnhau ein hymrwymiad i ddatblygu a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) yn wirfoddol.

Cyflwynwyd y Cynllun presennol yn 2019. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd Cymwysterau Cymru yn darparu gwasanaethau Gymraeg fel rhan o'i weithrediadau dyddiol.

Mae'r ddeddfwriaeth a greodd Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydnabod 'wyth mater' wrth ystyried sut mae'r sefydliad yn cyflawni ei swyddogaethau. Mae un o'r 'materion' hyn yn nodi 'buddioldeb hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'.

Roeddem eisoes yn cyflawni llawer o'r ymrwymadau a gynhwyswyd yn y Cynllun cyn mis Ebrill 2019. Fodd bynnag, nod y Cynllun yw creu ffocws parhaus i sicrhau gwelliannau pellach o ran darparu gweithle dwyieithog a darpariaeth Gymraeg drwy gydol ein gwaith.

Nod yr adroddiad cynnydd hwn yw darparu gwybodaeth am yr hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni ac sydd bellach wedi'i ymgorffori mewn arferion gwaith o fewn y sefydliad, ynghyd â darparu gwybodaeth am yr hyn y mae'r sefydliad yn anelu at ei gyflawni yn y cyfnod adrodd sydd i ddod.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg cyn cyhoeddi'r Cynllun a darparwyd copi iddynt. Er bod y Comisiynydd yn rhagweld y gellid cymhwyso'r Safonau i Cymwysterau Cymru yn 2020, roedd yn croesawu cyhoeddi'r Cynllun fel mesur dros dro. Darperir yr holl adroddiadau diweddarar hefyd i swyddfa'r Comisiynydd.

Datganiad o Ymrwymiad

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae Cymwysterau Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus ac wrth gyfathrebu yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal.

Bydd yn ofynnol i Cymwysterau Cymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 2) 2016 maes o law. Tan hynny, mae Bwrdd a Gweithrediaeth Cymwysterau Cymru wedi penderfynu nodi eu hymrwymiad i'r Gymraeg drwy gynhyrchu a chyhoeddi Cynllun yn wirfoddol. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb wrth gyflawni ein swyddogaethau a chyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y Cynllun hwn, mae'r term 'cyhoeddus' yn golygu ein cynulleidfaoedd a'n rhanddeiliaid. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term hefyd yn cynnwys cyrff dyfarnu, mudiadau gwirfoddol, elusennau, a'n rhanddeiliaid yn y sector addysg ac mewn llywodraeth leol a chenedlaethol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Bwrdd a Gweithrediaeth Cymwysterau Cymru.

Trosolwg o'r Cynllun

Mae'r Cynllun yn nodi sut mae'r sefydliad yn cynnal ei fusnes. Mae hyn yn cynnwys dulliau gweithredu presennol yn ogystal â meysydd y mae'r sefydliad yn dymuno eu gwella a'u datblygu dros amser. Mae'n nodi'r camau y mae'r sefydliad eisoes wedi'u cymryd i gyflawni ei ymrwymadau i'r Gymraeg.

Yn benodol, mae'n:

- mynegi popeth y byddwn yn ei wneud neu'n ei ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg
- pennu fframwaith monitro ar gyfer y Cynllun
- rhoi arweiniad i staff ar sut rydym yn gweithio gyda'r Gymraeg

Gan gydnabod ein rôl fel rheoleiddiwr cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau statudol, mae ein Cynllun yn disgrifio'r camau y byddwn yn eu cymryd i annog, galluogi, hwyluso a chefnogi defnydd y Gymraeg wrth gyflawni ein swyddogaethau.

Y Cynllun

Mae pedair elfen i'r Cynllun (neu 'feysydd ffocws'), fel y nodir yng nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r rhain yn dilyn prif benawdau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 2) 2016, yr ydym yn disgwyl y gofynnir inni gydymffurfio â nhw maes o law. Mae'r rhain yn cynnwys:

- darparu gwasanaethau
- llunio polisiau
- gweithrediadau mewnol
- gweinyddu a monitro'r Cynllun

Mae elfennau o'r pedwar maes yn gweithredu ar draws y sefydliad. Mae rhai yn gyfrifoldeb timau penodol o fewn Cymwysterau Cymru. Bwrdd Cymwysterau Cymru sy'n berchen ar y Cynllun cyffredinol, sydd, ynghyd â'r Bwrdd Gweithredol, yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymadau, ac yn ceisio gwneud gwelliannau lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Darparu Gwasanaethau – y Rhyngwyneb Cyhoeddus

Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae enw, cyfeiriad a logo Cymwysterau Cymru yn ddwyieithog. Maent yn greiddiol i'n hunaniaeth gorfforaethol ac fe'u defnyddir yn ein holl gyhoeddiadau, cyfathrebiadau electronig, ffurflenni, cyflwyniadau, deunyddiau arddangos, marchnata ac unrhyw ddeunyddiau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd.

Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig bod ein hunaniaeth gorfforaethol yn hygyrch i bawb. Rydym yn parhau i ddiogelu, hyrwyddo a monitro'r defnydd o'n hunaniaeth gorfforaethol yn y ddwy iaith, ac yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ganllawiau a gofynion y Cynllun.

Gohebiaeth Ysgrifenedig

Wrth ddelio â gohebiaeth yn y Gymraeg, boed drwy lythyr neu e-bost, rydym yn ymateb yn Gymraeg. Cyhoeddir yr holl ohebiaeth gorfforaethol ffurfiol a gyhoeddir gan ein timau Cyfathrebu neu Lywodraethu Corfforaethol yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, dechreuodd y gwaith ar gofnodi dewisiadau iaith unigolion ar ein cronfa ddata rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM), a ddefnyddir i gofnodi manylion a rhyngweithiadau ein rhanddeiliaid, gan gynnwys negeseuon wedi'u targedu.

Y nod yw cofnodi dewisiadau ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig a llafar yn y Gymraeg, Saesneg neu'r naill iaith neu'r llall, er mwyn ein galluogi i gofnodi, ac felly cynhyrchu, dewisiadau unigol yn ôl yr angen.

Cyn dechrau ar y gwaith ar ddewisiadau iaith yn 2020-21, trafodwyd ein dull gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Fel rhan o'r gwaith a wnaed ar ddewisiadau iaith ein rhanddeiliaid/cwsmeriaid, cyflwynom ddau weithdy i staff, i'w briffio ar sut i gasglu'r wybodaeth hon a'i mewnbynnu i'r gronfa ddata cysylltiadau cwsmeriaid. Rydym hefyd wedi ychwanegu ffurflen awtomataidd fel y gall ein rhanddeiliaid/cwsmeriaid ddiweddarau eu cofnodion.

Galwadau Ffôn

Caiff galwyr ffôn sy'n defnyddio ein rhifau cyhoeddus eu cyfarch yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae ein gwasanaeth y tu allan i oriau arferol yn cynnig dewisiadau gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ymwelwyr i'n Derbynfafa

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae staff wedi bod yn gweithio gartref oherwydd y pandemig byd-eang, felly mae'r swyddfa wedi bod ar gau i ymwelwyr ac mae pob cyfarfod wedi'i gynnal ar-lein. Lle bo angen, cynhaliwyd cyfarfodydd yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Fel arfer, bydd ymwelwyr â'r swyddfa yn gweld arwydd yn eu gwahodd i sgwrsio yn y Gymraeg, os dyna yw eu dewis iaith. Gall ymwelwyr ddisgwyl i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg fod ar gael i'w cynorthwyo.

Er mwyn cyflawni ein targedau darparu gwasanaethau ar gyfer galwadau ffôn ac ymwelwyr, mae cydweithwyr sy'n ymgymryd â dyletswyddau derbynfafa yn cael eu hyfforddi yn y maes gwaith hwn ac yn cael eu briffio'n llawn ar yr holl brosesau. Adolygir y Llawlyfr Cyfarwyddiadau Cyfleusterau/Derbynfafa yn rheolaidd ac fe'i cedwir wrth law ar gyfer cydweithwyr sy'n ymgymryd â swyddogaeth y dderbynfafa.

Mae rhestr o'r holl aelodau staff dwyieithog yn y dderbynfafa i hwyluso delio â galwyr ffôn ac ymwelwyr sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Cyfarfodydd Cyhoeddus a Digwyddiadau

Mewn amgylchiadau gwaith arferol, mae cyfarfodydd cyhoeddus a gynullir gan y sefydliad bob amser yn cael eu hysbysebu a'u hyrwyddo'n ddwyieithog, gyda gwahoddiadau'n cael eu hanfon yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym hefyd yn annog pobl i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y Gymraeg.

Yn ystod y pandemig byd-eang, sefydlwyd system dechnegol i sicrhau y gellid cynnal cyfarfodydd ar-lein yn ddwyieithog.

Rydym yn sicrhau bod y staff sy'n mynychu digwyddiadau (yn bersonol neu ar-lein) yn cael eu briffio'n llawn a bod gweithwyr Cymraeg eu hiaith yn gwneud eu hunain yn hawdd eu hadnabod.

Pan fyddwn yn cyhoeddi adroddiadau neu gofnodion digwyddiadau rydym wedi'u cynnal, rydym yn sicrhau bod y rhain ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyhoeddusrwydd, Cyhoeddiadau a Hysbysiadau Cyhoeddus

Darperir holl gyhoeddusrwydd, cyhoeddiadau a hysbysiadau cyhoeddus Cymwysterau Cymru gyda'i gilydd yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Cynhyrchir deunyddiau adnoddau i gefnogi ein gwaith yn ddwyieithog hefyd.

Eithriadau i hyn fyddai dim ond pan nad yw adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer y cyhoedd neu os oes ganddo ddarllenwyr cyfyngedig iawn. Weithiau, cyhoeddir dogfennau a gynhyrchir gan sefydliadau eraill sydd ond ar gael yn Saesneg ar ein gwefan os ystyriwn fod y rhain o ddiddordeb neu'n ddefnyddiol i'n rhanddeiliaid.

Cyhoeddwyd 58 o gyhoeddiadau/adroddiadau gennym yn ystod 2020-21, ac roedd pob un ohonynt yn ddwyieithog. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiadau rheoleiddio ac ymchwil, a gwybodaeth ystadegol hefyd.

Cyhoeddir deunyddiau rydym yn eu darparu mewn digwyddiadau cyhoeddus a hysbysiadau i'r wasg ar yr un pryd yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyfryngau Cymdeithasol

Cyhoeddir negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac ymatebir iddynt yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Dros y cyfnod adrodd, cyhoeddwyd pob un o'r 560 neges yn ddwyieithog.

Gwefan

Mae gwefan Cymwysterau Cymru yn gwbl ddwyieithog, gyda thudalennau Cymraeg a Saesneg. Darperir cyfarwyddiadau clir i alluogi gwylwyr i newid o un iaith i'r llall.

Rydym yn monitro ein gwefan ac yn ceisio adborth – gan weithredu gwelliannau a newidiadau lle bo hynny'n briodol.

Gwasanaethau Cyfieithu

Rydym yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu o ansawdd uchel i sicrhau bod testun a dogfennau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn gywir ac yn adlewyrchu ein harddull a 'thôn llais' Cymwysterau Cymru.

Llunio Polisiâu – Corfforaethol a Rheoleiddiol

Polisiau Corfforaethol

Wrth gymeradwyo polisi newydd neu adolygu ein polisiâu presennol, rydym bob amser yn ystyried sut y gallai penderfyniad polisi effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb yn cynnwys cyfeiriad at ein Cynllun Iaith Gymraeg, gan sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus y ffordd rydym yn gweithredu fel sefydliad cynhwysol. Fel rhan o'n Hamcanion Cydraddoldeb, rydym yn monitro triniaeth gyfartal y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae ein nodau a'n hamcanion polisi yn cael eu cyfleu i'n staff drwy ein proses sefydlu a'n dulliau cyfathrebu mewnol rheolaidd.

Polisi Rheoleiddiol

Diffinnir pwerau a dyletswyddau Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol mewn deddfwriaeth sy'n cadarnhau'r materion y dylem roi sylw iddynt. Un o'r 'wyth mater' yr ydym yn rhoi sylw iddo yw 'buddioldeb hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg'.

Cyhoeddwyd ein dogfen *Dewis i Bawb* (strategaeth cyfrwng Cymraeg) fis Gorffennaf 2020. Mae hon yn cyd-fynd â'n Cynllun Iaith Gymraeg ac yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg rhwng 2020 a 2025.

Mae'r strategaeth yn cynnwys pedwar maes ffocws strategol. Y pedwar maes ffocws strategol yw:

- nodi a blaenoriaethu cymwysterau sydd i fod ar gael yn y Gymraeg
- cryfhau capasiti yn y system gymwysterau
- adolygu ein grant cymorth i'r Gymraeg
- gwella gwybodaeth a data ar gymwysterau cyfrwng Cymraeg

Grantiau Cymraeg

Yn ystod 2020, ailffocyswyd ein dogfennau grant Cymraeg i gynnwys y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y strategaeth *Dewis i Bawb* ac i annog ceisiadau am gymwysterau newydd, a'r cymwysterau hynny sy'n cael eu diweddarau. Roedd y broses grantiau gystadleuol yn llwyddiannus iawn, gan ennyn diddordeb mawr gan gyrff dyfarnu; dyfarnwyd dros £304,000 drwy 15 grant i saith corff dyfarnu yr oedd eu ceisiadau'n bodloni pedwar maes y meini prawf:

- galw
- cynaliadwyedd
- sicrhau ansawdd
- aliniad â pholisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru

Eleni, rydym yn cefnogi cymwysterau mewn amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys chwaraeon a hamdden, peirianeg, sgiliau hanfodol, amaethyddiaeth, busnes, trin gwallt, gwaith chwarae ac addysg grefyddol.

Rydym wedi parhau i sicrhau ein bod yn gyson yn ein dull o ddyfarnu grantiau a bod gofynion y Cynllun yn cael eu cynnwys yn y broses.

Ymchwil

Wrth gomisiynu ymchwil, rydym yn sicrhau bod ein moeseg ymchwil yn mynd ati i ystyried unrhyw effaith bosibl ar y Gymraeg.

Rydym wedi cynnwys gofynion y Cynllun mewn briffiau ymchwil a chontractau fel sy'n briodol.

Rydym yn parhau i geisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg ac yn annog cyfraniadau yn y Gymraeg pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau yn unol â'n swyddogaethau rheoleiddio. Mae ein dogfennau rheoleiddio ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn parhau i fonitro ymgysylltiad â siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw brosesau ymgynghori er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ac ymgysylltiad.

Isod ceir dwy enghraifft o'r arolygon/ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd:

Arolwg Hyder y Cyhoedd

Yn ystod mis Medi/Hydref, cynhaliwyd Arolwg Hyder y Cyhoedd gennym. Cynhaliwyd cyfweiliad â 1,000 o bobl ar-lein, a dewisodd dau ohonynt ateb yn y Gymraeg. Cynhaliwyd cyfweiliad â 1,000 o bobl ychwanegol yn bersonol, a dewisodd 22 ohonynt gynnal y cyfweiliad yn y Gymraeg.

Sgiliau ar gyfer y Dyfodol – ymgynghoriad ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch
Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn ystod hydref 2020.
Prif ymgynghoriad: 26 o ymatebwyr Cymraeg – 183 o ymatebwyr Saesneg
Ymgynghoriad cryno: 11 o ymatebwyr Cymraeg – 208 o ymatebwyr Saesneg

Gweithrediadau Mewnol

Recriwtio Staff

Rydym yn parhau i sicrhau bod ymrwymadau a wneir yn ein Cynllun o ran recriwtio staff yn cael eu cynnal. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried gofynion Cymraeg swydd, hysbysebu swyddi'n ddwyieithog, a rheoli'r broses recriwtio yn y Gymraeg neu yn Saesneg yn seiliedig ar ddewis yr ymgeisydd.

Rydym yn ei gwneud yn glir bod ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg i'w croesawu ac yn monitro nifer y swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cynhaliwyd pymtheg ymgyrch recriwtio gennym. Cafodd pob ymgyrch ei hyrwyddo'n ddwyieithog ar ein gwefan, gyda phyrth Cymraeg ychwanegol yn cael eu defnyddio, e.e. Swyddle. Rydym hefyd yn defnyddio gwefannau Cymraeg eraill, fel Golwg, Lleol a Safle Swyddi, yn seiliedig ar anghenion y rôl sy'n cael ei hysbysebu.

Penodi Adnoddau Dynol ac Arferion Gweithwyr

Rydym bob amser wedi parchu dewis gweithiwr i siarad Cymraeg. Gellir cynhyrchu llythyrau cynnig a contractau gweithwyr yn y Gymraeg os yw'r ymgeisydd i'w benodi wedi nodi mai dyma yw ei ddewis yn ystod y cam ymgeisio. Rydym wedi cyfieithu ein polisiau gweithwyr craidd, gydag ymrwymiad i gyfieithu'r gweddill ar y pwynt y cânt eu hadolygu nesaf. Mae'r polisiau hyn yn nodi y gellir cynnal rhai arferion gweithwyr yn ddwyieithog hefyd – er enghraifft, disgyblu, cwyno a chwythu'r chwiban. Gall gweithwyr hefyd gynnal eu sgysiau perfformiad a datblygiad yn y Gymraeg os yw'r gweithiwr a'r rheolwr llinell yn hapus i wneud hynny. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi atgyfnerthu'r sefyllfa hon ac rydym yn cyfleu ein dull i weithwyr drwy eitemau newyddion mewnol a hyfforddiant. Rydym yn hyrwyddo'r dull hwn yn ystod y cyfnod ymsefydlu er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi cynnal ymarfer caffael ac wedi dyfarnu contract i ddarparu system Adnoddau Dynol ddwyieithog a fydd yn galluogi gweithwyr i archebu gwyliau blynyddol, cofnodi absenoldeb oherwydd salwch, a diweddarau a rheoli eu gwybodaeth bersonol a chydaddoldeb a sgiliau'r Gymraeg yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae hon yn cael ei gweithredu a chaiff ei chyflwyno i weithwyr yn ystod haf 2021. Unwaith y bydd yr agwedd hon ar y prosiect wedi'i chwblhau, byddwn wedyn yn gweithredu modiwl recriwtio ar-lein a fydd yn ddwyieithog.

Rydym wedi ychwanegu'r Cynllun Iaith Gymraeg i'n proses sefydlu gweithwyr newydd fel bod gweithwyr yn deall ein hymrwymiad a'n dull gweithredu o'r cychwyn cyntaf.


Gwnaethom fanteisio ar y cyfle, fel rhan o'r gweithdai a gynhaliwyd ar y gwaith dewis Cymraeg, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n gweithwyr am y Cynllun Iaith Gymraeg, gan gynnwys nodiadau atgoffa ar yr holl wybodaeth a swyddogaethau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd yn y Gymraeg.

Gallu'r Staff yn y Gymraeg

Rydym yn adolygu lefel gallu ein gweithwyr yn y Gymraeg fel rhan o'n dull o ymdrin â'r Gymraeg a datblygu sgiliau staff. Mae gweithwyr yn hunanasesu eu gallu ac yn graddio eu hunain ar raddfa o 1 (rhugl) i 5 (dim gallu) o ran darllen, siarad, deall ac ysgrifennu.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd 27 o weithwyr (28%) wedi graddio eu hunain fel rhai â sgiliau Cymraeg (gostyngiad o bedwar gweithiwr o'i gymharu â'r llynedd), a 49 (52%) yn nodi nad oedd ganddynt sgiliau Cymraeg (arhosodd y ffigur hwn yr un peth â'r flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad o 4% o gyfanswm nifer y gweithwyr oherwydd cynnydd yn nifer y pen). Roedd 19 (20%) gweithiwr heb asesu eu gallu. O'r rhai a nododd fod ganddynt rai sgiliau Cymraeg, roedd 14 yn ystyried eu hunain yn rhugl ar draws pob maes (gallu cyffredinol, siarad, deall ac ysgrifennu). Roedd rhai gweithwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau yn nodi bod ganddynt ychydig o allu cyfyngedig ar draws un neu rai o'r meysydd.

Gofynnir i weithwyr newydd adolygu a chadarnhau eu sgiliau wrth ymuno. Gofynnwn hefyd i weithwyr presennol adolygu eu sgiliau'n flynyddol, gan gydnabod y bydd y rhai sy'n dysgu Cymraeg yn gwella eu gallu yn ystod eu cyflogaeth.



Hyfforddiant a Sgiliau

Rydym yn parhau i gefnogi cyfleoedd dysgu Cymraeg drwy ariannu aelodau staff mewn astudiaeth bersonol, yn ogystal â hyrwyddo'r modiwlau dysgu ar-lein a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau i gefnogi dysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau. Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r pandemig, sydd wedi effeithio ar ddysgu wyneb yn wyneb. Rydym wedi parhau i hyrwyddo ac annog dulliau dysgu ar-lein.

Rydym eisoes wedi cefnogi gweithwyr i fynychu'r sesiynau preswyl a gyflwynir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n trochi dysgwyr yn yr iaith naill ai i adeiladu ar sgiliau iaith presennol neu i ddechrau unigolion ar eu taith Gymraeg. Nid yw hyn wedi bod ar gael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd y pandemig, ond byddwn yn hyrwyddo ac yn rhoi cymorth i weithwyr fynychu pan fydd y sesiynau hyn yn aildechrau.

Wrth gaffael hyfforddiant i gyflawni'n gorfforaethol ar draws y sefydliad, rydym yn cynnwys y Gymraeg yn y gofynion ac yn ceisio darparu naill ai'n ddwyieithog, neu gyflwyno sesiynau Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ddarparu hyfforddiant mewn rhoi a derbyn adborth ac roedd y darparwr penodedig yn gallu darparu yn y Gymraeg.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda thri chorff noddedig arall i gaffael a dylunio dwy raglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar y cyd, un wedi'i hanelu at reolwyr llinell, y llall ar lefel arweinyddiaeth. Dechreuodd y carfannau cyntaf yn hydref 2020 ac, er na fu galw eto ar draws y grŵp o gyrrff noddedig am garfan Gymraeg ar gyfer y naill raglen neu'r llall, rydym yn cynnig carfan Gymraeg i ddechrau yn hydref 2021.

Technoleg Gwybodaeth

Fel y nodir yn y Cynllun, darperir ein hunaniaeth gorfforaethol o fewn cyfathrebu electronig yn y Gymraeg ac yn Saesneg fel safon.

Rydym yn treialu defnydd o declyn cyfieithu ar-lein i alluogi cyfieithu cyflymach o gyfathrebu annhechnegol.

Caffael a Chontractau

Rydym yn parhau i sicrhau bod yr holl brosesau caffael a chontractau yn cydymffurfio â'n hymrwymiad yn y Cynllun.

Rydym wedi penodi cyfieithwyr sy'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Rydym hefyd yn parhau i sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o'n Cynllun a'n hymrwymiad parhaus i'r Gymraeg.

Rhagolwg

Yn ystod 2021-22, rydym yn bwriadu datblygu'r meysydd canlynol ymhellach:

- Cynnal adolygiad o'n Cynllun yn erbyn Safonau'r Gymraeg (Cymru).
- Parhau i ddatblygu'r gronfa ddata rheoli cysylltiadau cwsmeriaid i gofnodi dewisiadau iaith unigol ein rhanddeiliaid ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig a llafar.
- Cyflwyno modiwl 'hunanwasanaeth' gweithwyr ein system AD newydd yn Saesneg ac yn y Gymraeg fel y gall defnyddwyr ddefnyddio'r system yn eu dewis iaith a gweithredu modiwl recriwtio dwyieithog.
- Parhau i wella ymwybyddiaeth staff am arferion cyflogaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Adolygu'r cyfleoedd sydd ar gael i uwch-reolwyr ac aelodau'r Bwrdd dderbyn hyfforddiant am ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl.
- Monitro'r defnydd arbrofol o offer cyfieithu ar-lein i alluogi cyfieithu cyflymach o gyfathrebiadau annhechnegol.
- Gwella ein proses fonitro ymhellach er mwyn monitro ein cydymffurfiaeth â'n hymrwymiaid yn y Cynllun ar draws gweithrediadau'r sefydliad.

Byddwn yn monitro'r modd y cyflawnir y rhain drwy ein cynlluniau gweithredol a thîm mewnol ar gyfer 2021-22.

Gorffennaf 2021